

# Gwerthuso Gwasanaeth Reflect yng Ngwent

Dr Louise Roberts, Dr Nina  
Maxwell, Claire Palmer a Rebecca  
Messenger

## Briffio Ymchwil CASCADE

Rhif 10: Tachwedd 2018



**CASCADE**

Children's Social Care  
Research and Development Centre  
Canolfan Ymchwil a Datblygu  
Gofal Cymdeithasol Plant



**ExChange**

Building Better Social Care  
in Wales  
Adeiladu Gofal Cymdeithasol  
Gwell yng Nghymru



School of  
Social Sciences  
Ysgol y Gwyddorau  
Cymdeithasol



# Briffio Ymchwil

## CASCADE

Rhif 10: Tachwedd 2018



## Gwerthuso Gwasanaeth Reflect yng Ngwent

**Dr Louise Roberts, Dr Nina Maxwell, Claire Palmer a Rebecca Messenger**

**Negeseuon pwysig o ran polisïau ac arferion**

- Diben gwasanaeth Reflect yw cynnig cymorth i bob mam a'i chymar mae plentyn wedi'i gymryd oddi wrthynt yn barhaol trwy orchymyn llys. Prif nod y gwasanaeth yw osgoi sefyllfa lle y bydd mam o'r fath yn feichiog wedyn heb allu gwella ei hamgylchiadau gan ei bod yn bur debygol y bydd hi'n colli'r plentyn nesaf trwy orchymyn, hefyd.
- Gwerthusodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a mudiad Barnado's y gwasanaeth mewn dau gam i astudio sylwadau a phrofiadau budd-ddalwyr allweddol yn ogystal ag archwilio'r deilliannau i rieni sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae canfyddiadau'r gwerthuso yn addawol ac yn awgrymu bod y gwasanaeth yn diwallu gwir angen o ran cynnig cymorth i garfan sy'n agored iawn i niwed a bod ei effaith yn un fuddiol er gwaethaf anghenion dwys, amrywiol ac amlochrog y rhieni.
- Nodwyd tystiolaeth o gynnydd mewn meysydd megis iechyd, tai, materion ariannol, cysylltiadau a llesiant goddrychol.
- Mae angen rhagor o ymchwil i gadarnhau'r amryw ganfyddiadau trwy astudio samplau ehangach er mwyn deall llwybr rhieni y tu hwnt i'w hymgysylltu â Reflect a phennu a yw'r gwasanaeth yn helpu i gwtogi ar nifer y mamau sy'n gorfod rhoi'r gorau i'w plant o ganlyniad i orchymyn llys.



## Cefndir

Mae amcangyfrif y bydd un o bob pedair mam sy'n ymwneud â chais am gymryd ei phlant oddi wrthi gerbron llys i deuluoedd eto cyn pen saith mlynedd (Broadhurst ac eraill 2017). Gan amlaf, byddan nhw gerbron y llys eto yn sgîl cael baban yn ystod yr achos blaenorol neu'n fuan wedyn. Trwy fod yn feichiog eto yn syth ar ôl colli plentyn trwy orchymyn llys, chaiff mamau mo'r cyfle i newid eu sefyllfa er gwell (Broadhurst ac eraill 2015).

Mae hanes cythryblus ac anghenion cymhleth ar famau sydd gerbron llys dro ar ôl tro ynghylch eu gallu i ofalu am blentyn (Broadhurst ac eraill 2017; Memarnia ac eraill 2015). Ar ôl cymryd plentyn oddi wrth fam, bydd ei hanawsterau blaenorol yn parhau, a gall rhagor o broblemau ddod i'w hatgyfnerthu, hefyd (Neil 2006, Broadhurst a Mason 2017, McCracken ac eraill 2017, Hinton 2018). Hyd yn ddiweddar, fawr ddim o gymorth dilynol a fyddai ar gael i fam roedd plentyn wedi'i gymryd oddi wrthi am byth trwy orchymyn llys (Cox 2012: 543, Sellick 2007).

Sefydlodd Adran Gwasanaethau i Blant Cyngor Dinas Casnewydd, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a mudiad Barnardo's wasanaeth Reflect am fod gwir angen 'gwneud rhywbeth' (Lewis-Brooke ac eraill 2017: 6) i lenwi diffyg amlwg o ran cynnig gwasanaethau i rieni roedd eu plant wedi'u cymryd oddi wrthynt. Diben gwasanaeth Reflect yw cynnig cymorth i bob mam a'i chymar mae plentyn wedi'i gymryd oddi wrthynt yn barhaol trwy orchymyn llys. Mae'r gwasanaeth ar gael am ddwy flynedd. Y prif nod dros y tymor byr yw osgoi sefyllfa lle y bydd mam yn feichiog eto bron yn syth wedyn gan a'i hannog *hi a'i chymar i ddeall eu hanes a'u sefyllfa bresennol a chyflawni eu nodau*' (Barnardo's 2017).

## Yr astudiaeth ymchwil

Gwerthusodd y gwasanaeth mewn dau gam er mwyn hel data hydredol. Yn ystod y cam cyntaf, dadansoddwyd 30 o achosion - 15 oedd yn dal yn agored a 15 oedd wedi'u cau. Holwyd pedwar o staff gwasanaeth Reflect a rhai rhieni (12 mam a phedwar tad) trwy gyfweiliadau ansoddol. Llenwodd 16 o rieni holiadur o'r enw *Manchester Short Assessment of Quality of Life* (MANSA), ffordd safonol o asesu ansawdd gwrthrychol a goddrychol bywyd rhywun.

Yn yr ail gam, dadansoddwyd y 15 achos oedd yn dal yn agored eto. Holwyd wyth merch a dau ddyn trwy gyfweiliadau dilynol ynghyd â chynnwys pedwar o weithwyr gwasanaeth Reflect mewn cylch trafod. Ymatebodd naw o bobl i arolwg o broffesiynolion yng Ngwent, a llenwodd naw o rieni holiadur MANSA eto.

## Prif ganfyddiadau

Dangosodd pob un o'r dulliau ymchwil fod effaith y gwasanaeth yn un fuddiol. Mae prif ganfyddiadau'r gwerthuso wedi'u crynhoi isod ynghyd â rhai o sylwadau'r rhieni:



### **Mae gwasanaeth Reflect yn diwallu angen pwysig o ran cynnig cymorth**

Ar ôl dadansoddi achosion, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod gweithwyr Reflect yn effeithiol o ran annog merched i atal cenhedlu. Mae pwysigrwydd cymorth hirdymor, hyblyg a phenodol trwy wasanaeth Reflect wedi'i gydnabod gan y proffesiynolion a ymatebodd i'r arolwg yn ogystal â gweithwyr a rhieni yn y cyfweiliadau.

*Wn i ddim beth fyddwn i'n wneud heb y cymorth mewn gwirionedd achos does neb arall gyda fi... mae llawer o bwysau oddi ar fy ysgwyddau ers cysylltu â Reflect.*

### **Mae ymgysylltu'n waith ymestynnol sy'n mynnu amser**

Datgelodd y dadansoddi a'r cyfweild fod angen i weithwyr fod yn ddyfal, yn hyblyg ac yn fodlon ymaddasu wrth drin a thrafod rhieni, gan gynnig cymorth dwys a hirbell fel ei gilydd yn ôl yr angen.

*Heb wybod sut bydden nhw'n gweithio...ro'n i'n meddwl taw gweithwyr cymdeithasol oedden nhw a byddai'n brofiad ofnadwy*

### **Mae agwedd dringar a pharch yn hanfodol**

Yn ystod y cyfweiliadau, dywedodd llawer o rieni fod eu perthynas â'r gweithwyr yn wahanol i'w brofiad arferol o gwrdd â phroffesiynolion. Dywedodd llawer fod gweithwyr Reflect yn bobl dringar ac ymatebol sy'n gefn iddyn nhw heb eu barnu.

*Heb sylweddoli y byddai fel hyn, ro'n i'n meddwl y byddai mwy fyth o rwtsh am beth ddylwn i fod wedi'i wneud ac na ddylwn i fod wedi'i wneud ac mai fi sy' ar fai a bod rhaid wynebu hynny... ond, yn hytrach, maen nhw'n dweud na ddylwn i deimlo'n euog achos nad dim ond fi sy' ar fai... roedd pethau'n anodd ac maen nhw wedi fy helpu i ddeall fy anawsterau a symud ymlaen. (rhiant)*

### **Gwerthfawrogi cymorth a chefnogaeth fel ei gilydd**

Dangosodd canfyddiadau MANSA fod llesiant goddrychol wedi gwella ar draws saith o'r wyth maes. Dangosodd cyfweiliadau gyda rhieni a gweithwyr Reflect bwysigrwydd cefnogaeth i helpu rhieni i ymdopi â cholled a galar, yn ogystal â chymorth i ddatrys problemau ymarferol (megis dyledion a materion tai) sydd, yn aml, yn prysur waethygu.

*Mae hi wedi fy helpu i bennu cyllideb... mae hi'n fy helpu i ddeall ystyr esgeuluso... mae hi wedi fy helpu i ysgrifennu llythyrau at y plant... mae hi wedi ein helpu i ymdopi ag achlysuron megis penblwyddi a'r Nadolig, mae hi wedi fy nghynghori am ymdopi â thrais yn y cartref ac iselder. (rhiant)*



### **Dylid mesur cynnydd a newid yn ôl pob achos unigol**

Yn ôl canlyniadau'r dadansoddi achosion, holiaduron MANSA, y cyfweiliadau a'r cylch trafod, mae cynnydd ym meysydd iechyd, tai, materion ariannol, addysg, gwaith a chysylltiadau. Daeth i'r amlwg dro ar ôl tro yn y cyfweiliadau fod hyder a hunan-barch wedi gwella. Amlygodd rhai rhieni gynnydd o'r fath trwy'r olwg oedd arnyn nhw a'u gallu i gyfathrebu, ac roedd y cynnydd wedi arwain at newid trawsffurfiol mewn nifer o achosion gan alluogi rhieni i roi'r gorau i gyffuriau, dod o hyd i swydd a/neu astudio ar gyfer cymwysterau.

*A dweud y gwir, mae wedi fy helpu er gwaethaf fy amheuon -  
rwyf i wedi dechrau gwenu eto, er enghraifft... pan gollais fy  
mhlant, ro'n i'n meddwl na fyddwn i'n gwenu byth eto. (rhiant)*



## manylion pellach

### Rhagor o fanylion

I ofyn am gopi o'r adroddiad cyflawn, cysylltwch â Louise Roberts: [RobertsL18@cf.ac.uk](mailto:RobertsL18@cf.ac.uk).

Mae ffilm sy'n crynhoi canfyddiadau'r cyfweiliadau gyda rhieni ar gael trwy wefan CASCADE.

### Llyfryddiaeth

Barnardo's. (2017). *Gwent Reflect*. Heb ei gyhoeddi

Broadhurst, K. a Mason, C. (2017). Birth Parents and the Collateral Consequences of Court-order Child Removal: Towards a Comprehensive Framework. *International Journal of Law, Policy and The Family* 31, 41-59.

Broadhurst, K., Mason, C., Bedston, S., Alrouh, B., Morriss, L., McQuarrie, T., Palmer, M., Shaw, M., Harwin, J. a Kershaw, S. (2017). *Vulnerable Birth Mothers and Recurrent Care Proceedings. Final Main Report*. WWW. <http://wp.lancs.ac.uk/recurrent-care/publications/> [adolygu 13.3.18]

Broadhurst, K., Shaw, M., Kershaw, S., Harwin, J., Alrouh, B., Mason, C. a Pilling, M. (2015). Vulnerable birth mothers and repeat losses of infants to public care: is targeted reproductive health care ethically defensible? *Journal of Social Welfare and Family Law* 37(1), tt. 84-98.

Cox, P. (2012). Marginalized mothers, reproductive autonomy, and 'repeat losses to care' *Journal of Law and Society*, 39(4), 541-561.

Hinton, T. (2018) *Breaking the Cycle: Supporting Tasmanian parents to prevent recurrent child removals*. Social Action Research Centre, Anglicare Tasmania Inc. Ar gael trwy <https://www.socialactionresearchcentre.org.au/wp-content/uploads/Breaking-the-Cycle-Report.pdf> [adolygu diwethaf: 20/09/18].

Lewis-Brooke, S., Bell, L., Herring, R., Lehane, L., O'Farrell-Pearce, S., Quinn, K a So, T. (2017). Mothers Apart: An Action Research Project Based on Partnership between a Local Authority and a University in London, England. *Revista de Asistentã Socialã* (3). tt. 5-15.



**CASCADE**

Children's Social Care  
Research and Development Centre  
Canolfan Ymchwil a Datblygu  
Gofal Cymdeithasol Plant



**ExChange**

Building Better Social Care  
in Wales  
Adeiladu Gofal Cymdeithasol  
Gwell yng Nghymru

**CARDIFF  
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL  
CAERDYDD**

School of  
Social Sciences

Ysgol y Gwyddorau  
Cymdeithasol

**CARDIFF  
UNIVERSITY**

**PRIFYSGOL  
CAERDYDD**